**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L

# 2002 Rhif (Cy. )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2002

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2002, a wnaed o dan Ran II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, gwnaed darpariaeth sy'n galluogi awdurdod lleol yng Nghymru sy'n gweithredu trefniadau gweithrediaeth i wneud trefniadau ar gyfer cyflawni ei swyddogaethau gweithrediaeth gan bwyllgorau ardal, gweithrediaeth awdurdod lleol arall neu ar y cyd ag un neu fwy o awdurdodau lleol eraill drwy gyd-bwyllgor.

Mae Rheoliad 12(1) o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Cymru) 2002 yn darparu mai dim ond aelod o'r weithrediaeth y gellir ei benodi i gyd-bwyllgor sy'n arfer swyddogaethau gweithrediaeth.

Er mwyn sicrhau y caniateir i weithrediaethau awdurdod lleol benodi naill ai aelodau o'r awdurdod lleol nad ydynt yn aelodau gweithrediaeth neu swyddogion yr awdurdod i wasanaethu ar gyd-bwyllgorau ar eu rhan, diwygir rheoliad 12(1) yn unol â hynny.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2002 Rhif (Cy. )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2002

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *2002* |
| *Yn dod i rym* | *20 Rhagfyr 2002* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 18(1) a (2), 19(1), (2), (4), (5) a (6), 20(1) a (2), 105(2) a 106(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**1**):-

**Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 20 Rhagfyr 2002.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyflawni Swyddogaethau) (Diwygio) (Cymru) 2002(**2**).

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys yng Nghymru yn unig.

**Diwygio'r prif Reoliadau**

**2.** Yn lle paragraff (1) o reoliad 12 o'r prif Reoliadau (aelodau cyd-bwyllgorau) rhowch -

"(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3) isod, ni fydd y gofynion am gydbwysedd gwleidyddol yn gymwys i benodiadau a wneir i gyd-bwyllgor yn unol â rheoliad

(**1**) 2000 p.22
(**2**) O.S. 2002/802 (Cy.87).

11 uchod gan weithrediaeth, aelod o weithrediaeth neu bwyllgor gweithrediaeth.”.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998**(3)**

Dyddiad 2002

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**3**) 1998 p.38.